

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Hysbysiad Preiftrwydd
DIOGELU OEDOLION A PHLANT SYDD MEWN RISG

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau
Cyffredinol Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad crëwyd:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Uned Diogelu – Bwrdd Diogelu Cwm Taf
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Jon Eyre – Rheolwr Diogelu
Cyfeiriad:	MTCBC, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am y modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu data personol at ddibenion diogelu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym ni'n cadw a defnyddio gwybodaeth amdanoch chi. Mae'n ofynnol ein bod ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu am y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarar yr hysbysiad hwn ar unrhyw adeg os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau bod yna gopi diweddar o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am eich prosesu data a gellir cael gafael arno ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i weithgareddau'r Uned Ddiogelu sy'n ffurfio rhan o Hyb Diogelu Aml Asiantaethol Cwm Taf (a elwir yn MASH) sef man cyswllt i weithwyr proffesiynol fel gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a chefnogi, athrawon, meddygon ac aelodau o'r cyhoedd i adrodd yn ôl am bryderon diogelu am oedolion a phlant ym Merthyr Tudful ond hefyd i hwyluso pryderon a wnaed ledled ardal Cwm Taf. Mae MASH wedi sefydlu byrddau diogelu i oedolion a phlant sy'n gyfrifol am archwilio pryderon sy'n berthnasol i lesiant oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Rheolwr Diogelu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw Cadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf (BDCT) i oedolion a phlant sy'n byw ym Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Pan fyddwn yn sôn am adran, byddwn yn cyfeirio at yr Adran Ddiogelu, sef y BDCT yn fwy penodol, sydd yn gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi wrth i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae BDCT yn gyfrifol am archwilio pryderon ynghylch y rheini sy'n gweithio â neu'n gofalu dros

oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i'r dioddefwyr a chyflawnwyr troseddau sy'n atebol i bryder o ran diogelu, a allai gynnwys cyflogeion, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, gwirfoddolwyr, gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd, oedolion sy'n agored i niwed, plant ac unigolion eraill sydd â chyswllt â dioddefwyr a chyflawnwyr trosedd neu sy'n dyst i'r pryder o ran diogelu.

Mae BDCT yn bartneriaeth sydd wedi ei lunio o nifer o sefydliadau â'r nod o ddiogelu ac atal oedolion a phlant sy'n agored i niwed rhag dyfod i fod mewn sefyllfa o risg neu niwed. Mae BDCT wedi ei lunio o'r sefydliadau canlynol:

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Heddlu De Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Ymddiriedolaeth GIG
Interlink Rhondda Cynon Taf
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Ysgolion Cynradd Merthyr Tudful
Ysgolion Uwchradd Merthyr Tudful
Y Coleg Merthyr Tudful
Darparwyr Meithrin, Cyn Ysgol a Crèche Merthyr Tudful
Gall nifer o sefydliadau eraill hwyluso pryderon ble y bo'n briodol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan
Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH

Diben BDCT yw diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas rhag cam-drin, pan fo'i angen arnynt. Bydd BDCT yn ystyried pryderon a chyfeirio sy'n berthnasol i blant ac oedolion. Mae'r mathau o gam-drin sydd yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn cynnwys:

- Cam-drin corfforol fel bwrw, gwthio, pinsio, ysgwyd, gormod o feddyginiaeth neu beidio â gadael i berson gymryd meddyginiaeth.
- Cam-drin rhywiol fel gorfodi rhywun i gael gweithgaredd rhyw heb ei fod eisiau, cyffwrdd amhriodol, trais, ymosodiad rhywiol, neu weithredoedd rhywiol nad ydych wedi eu caniatáu, neu y cawsoch eich rhoi o dan bwysau i'w caniatáu.

- Cam-drin seicolegol neu emosiynol fel cael eich dychrynu, bygwth, cam-drin geiriol neu fychanu, cael bai, rheoli neu aflonyddu, anwybyddu yn fwriadol neu ynysu oddi wrth ffrindiau, teulu, gwasanaethau neu gefnogaeth.
- Cam-drin ariannol fel twyll neu ecsbloetio, dwyn neu gadw eich arian neu ei wario'n anaddas, rhoi pwysau arnoch i newid eich ewyllys neu gamddefnyddio eich eiddo, etifeddiaeth, eiddo neu fudd-daliadau.
- Esgeuluso fel anwybyddu eich anghenion meddygol neu ofal corfforol, atal mynediad at iechyd, gofal cymdeithasol neu wasanaethau addysgiadol, peidio â gofalu ar ôl eich eiddo, ddim yn rhoi'r bwyd digonol i chi, neu eich gosod mewn risg.

Gall unrhyw rai o'r ffurfiau hyn o gam-drin fod un ai'n fwriadol neu o ganlyniad i anwybodaeth, neu ddiffyg hyfforddiant, gwybodaeth neu ddealltwriaeth. Weithiau gall person gael ei gam-drin mewn mwy nag un ffordd. Er mwyn archwilio pryderon a honiadau o gam-drin, mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi a fydd yn cynnwys data personol fel a ganlyn:

- Data adnabod a chyswllt, fel enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, statws priodasol, disgrifiad cymeriad, disgrifiad corfforol, ffotograffau, fideos, rhif yswiriant cenedlaethol, rhif cyfeirio'r awdurdod lleol, rhif GIG a gaiff ei gasglu oddi wrth y dioddefwyr a'r cyflawnwyr trosedd honedig.
- Data ariannol fel cefndir ariannol, data incwm, arferion gwario, hanes prynu. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio rhan o bryder am gam-drin ariannol.
- Data cyflogaeth fel cyflogwr, lle neu leoliad cyflogaeth, teitl swydd, oriau gwaith, patrwm gwaith, cofrestriadau â chyrrff proffesiynol, manylion cyswllt cyflogwyr yr oll yn cael eu defnyddio yn ystod archwiliad proffesiynol i bryder.
- Data addysg fel eich man astudio, cyrsiau a fynychir, blwyddyn neu ddosbarth sy'n ein cynorthwyo ni pan fyddwn yn ystyried pryderon yn y sefydliadau addysgiadol.
- Data ffordd o fyw fel eich ethnigrwydd sy'n cynnwys eich hil, lliw, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, gallwn hefyd gael manylion o'ch crefydd, aelodaeth undeb llafur, barn, sylwadau, bwriadau a allai gynnwys hanes trais domestig.
- Data iechyd fel amodau iechyd meddwl neu gorfforol.
- Data am droseddau a allai beri risg i eraill.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon oddi wrth y personau mewn risg, y cyflawnwr trosedd a amheuir, rhieni, perthynas agosaf, aelod o'r teulu, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, tystion, ac eraill sydd yn gysylltiedig â'r person mewn risg.

3. SUT YDYM NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn casglu eich data personol mewn nifer o ffyrdd, yn bennaf drwy'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â delio gyda'r pryder. Yn ystod y broses diogelu, byddwn hefyd yn casglu datganiadau oddi wrth unrhyw dystion, y cyflawnwr trosedd a'r dioddefwr.

Bydd angen cyflwyno ffurflen gyfeirio cyn dechrau'r broses, gall unrhyw unigolyn gyfeirio os yw'n credu bod person mewn risg, a bydd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Gall adrannau mewnol a sefydliadau allanol hefyd gyfeirio at BDCT ar gyfer eu hystyried.

Ar ôl derbyn achos cyfeirio, bydd y Rheolwr Diogelu yn cynnal Trafodaeth Strategaeth Aml Asiantaethol er mwyn sefydlu ffeithiau ac asesu'r tebygolrwydd o niwed difrifol yn unol â chanllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r data personol yr ydym yn ei dderbyn a'i gasglu yn cael ei drosglwyddo i'n system electronig a elwir yn System Gwybodaeth Gofal Cymunedol, sy'n hygyrch i weithwyr proffesiynol y sector cyhoeddus sy'n gweithio oddi fewn i Lywodraeth Leol ac iechyd. Caiff mynediad at y system hon ei gyfyngu, dim ond personél awdurdodedig all weld, diwygio neu ddileu eich data. Mae gwybodaeth ddiogelu hefyd yn cael ei gadw ar isadeiledd TG y Cyngor. Mae gan hwn hefyd reolaeth mynediad wedi ei fewnblannu i'r system a'r unig rai all gael mynediad ato yw'r rheini â chaniatâd perthnasol. Nid yw asiantaethau allanol yn gallu cael mynediad at systemau mewnol y Cyngor.

Mae BDCT wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau polisi sy'n manylu sut mae'r broses diogelu yn gweithredu ac y maen nhw i gyd ar gael ar eu gwefan, www.cwmtafsafeguarding.org.

Dim ond pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data yn ein caniatáu ni i wneud hynny y byddwn ni'n defnyddio'ch data personol. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau Cyffredinol Diogelu Data a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fo angen i ni gydymffurfio â'n hobblygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol:
Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006
2. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Plant 2004
Deddf Plant 1989
Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
3. Pan fo'i angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol i'n galluogi ni i gydymffurfio â'r ymrwymadau a wnaed gan Ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, Diogelu Plant: Cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004.
4. Cefnogi'r ddarpariaeth o feddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, diagnosis meddygol, darparu triniaeth iechyd neu ofal cymdeithasol neu reoli systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu.

Dim ond at ddibenion diogelu y bydd BDCT yn prosesu eich data o gwbl, a hynny yn unol â'r gyfraith a'r polisiau a gweithdrefnau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a MASH.

Mae'r cyfreithiau a chanllawiau uchod yn berthnasol i'r modd y mae'n rhaid i ni archwilio i faterion sy'n berthnasol i blant ac oedolion a phryd y gallwn rannu gwybodaeth gyda sefydliadau allanol. Mewn sefyllfaoedd cydnabyddedig gellir ildio hawl i ddyletswydd o gyfrinachedd gyhyd ag y bo BDCT yn gallu arddangos fod diogelwch a llesiant y plentyn neu'r oedolyn yn brif beth i'r datgeliad. Gall BDCT hefyd ddatgelu gwybodaeth ar ôl iddo dderbyn caniatâd oddi wrth y dioddefwr neu fod yna fudd gor-redol i'r cyhoedd o ran datgelu gwybodaeth.

4. SUT YDYM NI'N RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol gyda phartneriaid y BDCT mewn ymateb i'r pryderon a godwyd. Pan nad yw pryderon yn bodloni meini prawf niwed difrifol bydd y person sy'n codi'r pryder yn cael cynnig cyngor am ba weithredu y dylai ei wneud mewn ymateb i'r materion a gododd. O ran pryderon sy'n bodloni meini prawf niwed difrifol caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng sefydliadau partner yn ystod y cyfarfodydd cytunedig. Gellir dod o hyd i restr o'r sefydliadau partner hyn o dan adran 1.

Mae Hyb Diogelu Aml Asiantaethol Cwm Taf wedi ymuno â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth gyda'r partïon priodol sy'n manylu ar sut y caiff y wybodaeth ei rhannu. Mae hyn ar gael ar wefan Rhannu Gwybodaeth Personol Wales Accord.

Ar ôl i Draffodaeth Strategol Aml Asiantaethol ddigwydd a bod trywydd mwyaf priodol o ran gweithredu wedi ei bennu, gellir cyfeirio at nifer o wasanaethau cefnogi mewnol ac allanol megis:

- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Darparwyr Gofal a Chefnogaeth
- Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol
- Heddlu
- Cyrff proffesiynol fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyngor Gofal Cymru

Mae'n bosibl y bydd hefyd yn ofynnol ein bod ni'n rhannu eich data personol gydag adrannau eraill y Llywodraeth a Chomisiynwyr fel Comisiynydd Pobl Hŷn, yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn rhannu setiau cyflawn o ddata personol dienw, ystadegol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r gwasanaethau addysg a ddarperir i bobl yng Nghymru.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl yr un faint o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth personol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH A'I CHADW'N DDIOGEL

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth personol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig er mwyn cyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl. Bydd pryderon ynghylch diogelu plant yn cael eu cadw am 75 mlynedd o ddyddiad geni'r plentyn. Bydd pryderon diogelu ynghylch oedolion yn cael eu cadw am o leiaf 7 mlynedd o'r dyddiad y daeth unrhyw wasanaeth gofal cymdeithasol i ben.

Mae manylion am unrhyw gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

Rydym wedi gosod mesurau diogelwch priodol mewn lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd diawdurdod, ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn dilyn cyfarwyddyd gennym ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio gydag unrhyw amheuaeth o dor cyfraith o ran diogelwch a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am dor cyfraith pan fydd yn gyfreithlon i ni wneud hynny.

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 029 2067 8400

7. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn.